

JONES, DAVID (1741 - 1792), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, a llenor

Enw: David Jones
Dyddiad geni: 1741
Dyddiad marw: 1792
Priod: Hannah Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr, a llenor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Ynys-domlyd, Cwmaman (Caerfyrddin); ond aeth i sir Fynwy i ddilyn ei grefft fel teiliwr. Argyhoeddwyd ef dan bregethu [Howel Harris](#); ac ar hyd ei oes wedyn bu sawr Methodistiaeth yn drwm arno, serch mai â'r Bedyddwyr, ym Mhen-y-garn, yr ymaelododd. Dechreuodd bregethu, ac yn 1773 urddwyd ef yn gynorthwywr i [Miles Harri](#) fel gweinidog; fel 'Dafydd Jones o Bontyp I' yr adwaenir ef orau. Yr oedd wedi cyhoeddi, 1758, *Pererindod Ysprydol, o'r Aipht i Ganaan*, ac yn 1773 cyhoeddodd farwnad i [Miles Harri](#). Pregethai ym Merthyr Tydfil ym more hanes y gweithfeydd yno. Bu'n briod ddwywaith; ei ail wraig oedd Hannah Jones, gweddw o'r Ddôl-goch, Castellnewydd Emlyn, a ddaliai fferm ac a gadwai fusnes bragu. Symudodd yntau, yn 1785 neu 1786, i'r Ddôl-goch. Ymunodd ag eglwys y Graig, Castellnewydd, a bu'n gyd-fugail arni. Yr oedd wrth ei fodd ynddi, oblegid eglwys led- Fethodistaidd oedd hi - eglwys 'ddiwygiadol' ei naws, a oedd wedi cefnu yn 1775 ar hen gynulleidfa sobrach y Pant Teg. Cyfaill mawr i David Jones yn yr ardal oedd [David Morris](#), T r gwyn; un arall oedd [Peter Williams](#). Daeth i ben David Jones (Medi 1786) ddarparu argraffiad Cymraeg o ' *Feibl poced*' John Canne - yr oedd [Howel Harris](#) a [Miles Harri](#) gynt wedi gwerthu llawer copi o'r argraffiad Saesneg. Cafodd gan [Peter Williams](#) ymuno ag ef yn y gwaith - gwaith a fu'n achos uniongyrchol diarddeliad [Peter Williams](#). Rhoes cymanfa'r Bedyddwyr ei sêl ddwywaith (1787, 1788) ar yr antur. Dechreuwyd cyhoeddi'r llyfr yn 1788, a chwplawyd ef yn 1790; David Jones yn bennaf a deithiai i'w werthu ar draws gwlad. Bu farw 24 Ionawr 1792, a chladdwyd yn Nhroed-yr-aur; canwyd marwnadau iddo gan [Morgan John Rhys](#) ac eraill. Syrthiodd ei wedd i dlodi mawr (trwy aflwyddiant ei masnach yn hytrach na thrwy golledion ar y ' *Beibl Bach*'), a dywedir iddi farw ar y plwyf, ryw bryd ar ôl 1839.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

M. J. Rhys yn *Y Cylchgrawn Cyn-mraeg*, Mai 1793

Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (1778) (ail arg.), 497, 573

D. Jones, *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* (1839), 694

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*

Gomer M. Roberts, *Bywyd a Gwaith Peter Williams* (Caerdydd 1943), pen. 6, 8

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732844](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.